o dud 14

*Telyn Dewi* tua'r un adeg.

Trwy gydol Gorffennaf ac Awst 1828 a 1829 bu Timothy Davis wrthi yn bur egniol yn gohebu â'i gyfeillion a'i deulu ac yn trefnu iddynt dalu biliau'r argraffydd, John Powell Davies, Spilman Street, Caerfyrddin.

* * *

DAETH RHAI tanysgrifiadau i law - trwy weinidogion y cylch yn bennaf, er iddo gwyno nad oedd Sion Twcwr yn gwneud ei waith yn hel archebion fel y dylai nac fel y cytunwyd - ac ym Medi 1830 gwelir ef yn talu £6.6.6 'balance due to Davies printer for Telyn Dewi 2nd Edition'.

Cyfeiriodd Thomas Griffiths at yr ail argraffiad hwn yn ei *Gofiant*. Wedi sôn fod llawer o waith David Davis heb fod yn *Telyn Dewi* 1824, dywed 'ond mae yn bur debyg y bydd yn cael ei gyhoeddi yn fuan ar ammodau tecach nâ Thelyn Dewi', ac mewn troed-nodyn honna, 'Y mae ail-argraffiad o Delyn Dewi, am iselach pris o lawer, i'w gael yn Llwynrhydowain yn awr'.

Ni welais gopi o'r argraffiad hwn, ond pan ymddangosodd *Telyn Dewi* o wasg John Davies Llanbedr yn 1876 galwyd ef yr ail argraffiad a chynhwysai ddeunydd ychwanegol at yr hyn a oedd yn yr argraffiad cyntaf.

Bu farw Anne Davis, mam Timothy, fis Ebrill 1832, ac aeth ef a'i ferch Caroline yn ôl i'r hen gartref. Arhosodd rai dyddiau a phregethodd nifer o weithiau mewn amrywiol gyfarfodydd. Mai 6, 'in the afternoon we went to Alltyplacca (having dined at Tynant) where I preached to a very full congregation'.

Gwasgwyd arno i gyhoeddi'r bregeth, yr hyn a wnaed erbyn Gorffennaf y flwyddyn honno dan y teitl *Cyfarwyddiadau ac Annogaethau i chwilio yr Ysgrythurau Sanctaidd*, 36 td. Cyflwynwyd y llyfryn 'i'r Gweinidogion a'r Cyfeillion' a oedd wedi'i annog i'w gyhoeddi.

Yr oedd yr awdur yn ymesgusodi 'fod y iaith ym mhell o fod yn Gymraeg pur a chywir; ond cofied y Darllenydd hynaws fod yr ysgrifennydd yn gweinidogaethu dros ychwaneg nag ugain mlynedd mewn iaith arall; a phan y gosododd y bregeth yn yr argraph-wasg, ym mhell o wlad ei enedigaeth, nad oedd un cyfaill yn agos iddo, hyddysg yn y iaith Gymraeg, i ymgynghori ag ef', ond mewn gwirionedd mae Timothy Davis yn ysgrifennu'n ddigon rhugl mewn Cymraeg mwy naturiol na llawer o'i gyfoedion.

George May, Evesham, oedd yr argraffydd, a rhaid ei ganmol yntau am lendid yr argraffu a chywirdeb ei waith. Mae'n llyfryn cymen iawn.

* * *

YR OEDD wedi cwblhau'i waith erbyn 21 Gorffennaf 1832 oblegid dyna'r dyddiad yr anfonodd yr awdur 800 o gopiau i Gymru, at ei frawd yng nghyfraith John Evans mae'n debyg. Gweithredai ef yn asiant dros Timothy Davis a thrwy gydol 1832-33 anfonai gyfrifon ac adroddiadau ar y gwerthiant.

Ond nid gwneud elw oedd bwriad Timothy Davis wrth gyhoeddi'r bregeth a rhannwyd copiau yn rhad ac am ddim ymhlith cynulleidfaoedd a thlodion yr ardal - 30 ar gyfer Caeronnen, 30 ar gyfer Cilgwyn, 30 i Thomas Griffiths eu dosbarthu i'r tlodion 'or to any orthodox brother that likes to read it'.

Cafodd Timothy Davis flas ar gyhoeddi'i bregethau, yn ôl pob golwg. Ionawr 5, 1834 pregethodd i bobl ieuainc ei eglwys a phenderfynodd argraffu'r bregeth 'for distribution among my young friends'. George May a argraffodd hon hefyd, *Serious Admonition to the Young*, ar 14 Ionawr, 200 o gopiau am £3.3.0, a'r ail 200 am 16.0.

Dosbarthwyd parseli o 60, 30, 20, 25 i nifer o eglwysi'r canolbarth, a threfnodd hefyd ei fod yn cael ei hysbysebu yn y *Christian Reformer:* cafodd ei adolygu yno fis Ebrill 1834. Gwerthwyd amryw o gopiau am 6d. yr un mae'n ymddangos, a chafodd 'Mr Hunter 72 St Paul's Church-yard', Llundain, 25 copi i'w gwerthu.

Mai 18 y flwyddyn honno traddododd bregeth yn ei eglwys ar y datguddiad o Dduw ym myd natur, ac yn arbennig yn nhymor y Gwanwyn, yn seiliedig ar Salm 104, adnod 30. Cytunodd â George May 25 Mai i argraffu hon ar yr un telerau â'r *Serious Admonition*.

Derbyniodd 400 o gopiau ar y 28, 29, 31 o Fai a 1 Mehefin, o *A sermon on the season of spring*, 24 td., ac ar werth gan Rowland Hunter, 72 St. Paul's Churchyard a J. Mardon, 19 St. Martin-le-Grand, Llundain, ond wedi'i argraffu yn Evesham, a dosbarthwyd hwy mewn dull tebyg i'r bregeth gynharach, gan gynnwys copi adolygu i'r *Christian Reformer* a 50 yr un i Mardon ac i Hunter, a 25 copi ychwanegol yr un o'r bregeth gynharach, *Serious Admonition.*

* * *

PREGETHAU Saesneg oedd ei gyhoeddiad nesaf hefyd. Ar 25 Mehefin 1837 pregethodd Timothy Davis ddwywaith ar agoriad hen dŷ-cwrdd y Crynwyr 'for worship of the one God & Father of all' Manchester Place, Cheltenham.

Gwnaed trefniadau i'w hargraffu, yr argraffydd yn cynnig ei lafur yn rhad ac am ddim a'r gynulleidfa'n talu am y papur. Anfonwyd y copi 9 Gorffennaf ac yr oedd y llyfryn *On Public worship and the unity of God*, 36 td., yn ei law 9 Medi.

Derbyniodd 200 o gopiau am £4.8.0, a ddosbarthodd ymhlith ei gyfeillion yn yr eglwysi a threfnodd iddo gael ei adolygu yn *The Christian Teacher* (Tachwedd 1837). W. Paine & Co, Cheltenham oedd yr argraffwyr ond yr oedd ar werth gan J. Mardon, London, a W. Leppard, Brighton.

Yr oedd Timothy Davis yn awdur profiadol pan aeth ati i gyhoeddi'r ail lyfryn Cymraeg o'i eiddo. Fel y gellid disgwyl, canlyniad un arall o'i ymweliadau â'r hen ardal oedd hwn, fel pregeth 1832.

I Gaerfyrddin yr aeth gyntaf, i arholi'r myfyrwyr, ac yna ymlaen i Lwynrhydowen. Bu'n gwasanaethu mewn tair angladd, yn eu plith angladd Molly James Blaen-y-cwm, 30 Mehefin, 1848, ac wedi dychwelyd i Evesham ysgrifennodd, ddiwedd Gorffennaf at gyfeillion yn yr ardal ynglŷn â chyhoeddi'r bregeth.

Addawyd pob cefnogaeth iddo gan weinidogion, perthnasau a chyfeillion ac erbyn mis Awst yr oedd y tanysgrifiadau am *Peryglon a dyledswyddau bywyd. Pregeth yn Angladd Benjamin Jones o Goedlannau Fach, Mehefin 28, 1835, yr hwn a foddodd yn y mor yn ddisymmwth, ac yn angladd Mary James, Blaenycwm, Mehefin 30, 1846* yn llifo i mewn.

Testun y bregeth oedd 1 Cor. XV, 30, 'Yr ydym ninnau mewn perygl bob awr', a'i diben oedd rhybuddio'i gynulleidfaoedd rhag peryglon disyfyd bywyd ac yn galw arnynt i arddel egwyddorion Cristnogol, oherwydd bu farw Benjamin Jones ar y traeth 'wrth ymolchi, trwy rhyw amgylchiad adnabyddus i neb, gan nad oedd ond y chydig o ddwr lle cafwyd ei gorph.'

'A gwraig Blaencwm a symmudwyd yn annisgwyliadwy o flaen ei Gŵr, yr hwn ydoedd wedi bod yn glaf iawn trwy fisoedd lawer'.

George May a argraffodd y llyfryn 15 td., ac unwaith eto, er bod Timothy Davis yn ymddiheuro fod 'y bregeth wedi ei argraffu allan o'r Copi cyntaf a scrifennais, heb un cyfnewidiad, na chwanegiad' ac yn erfyn maddeuant am 'yr amryw feiau', y gwir yw fod yr iaith a'r argraffu cystal â dim a wneid yng Nghymru, ac yn well na llawer.

* * *

YN YSTOD mis Awst a Medi 1848 daeth i law archebion am 200 o gopiau i gapel Llwyn-y-groes, 82 i'r Cilgwyn, 53 i Gastell Newydd Emlyn, Penrhiw a Phant-teg, 423 i Felindre, 25 i Lanbedr, 40 i Gaerfyrddin, 40 i Alltyblaca, ac anfonwyd 800 o gopiau i David Thomas Llwynrhydowen a weithredai'n asiant a dosbarthwr dros Timothy Davis.

Anfonwyd amryw at unigolion gan gynnwys un i'w or-nai yng Nghastell-nedd gydag awgrym ei fod yn ei chyfieithu i'r Saesneg. Yn sgil y gwerthu mawr hwn deffrowyd diddordeb yn ei bregethau eraill a cheir nifer o ymholiadau am y tri llyfryn arall.

Argraffydd a llyfrwerthwr yn Bridge Street, Evesham, oedd George May. Ceir ei enw mewn cyfarwyddiadur yn 1841 ond nid yw yng nghyfarwyddiaduron 1820 na 1855. Mae'n amlwg ei fod wrth ei waith rhwng 1832 a 1848.

Yn 1834 ysgrifennodd ac argraffodd ei lyfr ei hun ar hanes y dref, *The History of Evesham*, 353 td. Bu cryn fynd arno, mae'n ymddangos, ac erbyn 1843 yr oedd yn ceisio dwyn allan argraffiad newydd o'r gwaith. Troes at Timothy Davis mewn ymgais i ennill nawdd brenhinol i'r fenter newydd hon.

Ysgrifennodd ef at Syr David Davies 'Physician to the Queen Dowager' ar y sail eu bod ill dau'n frodorion o sir Aberteifi (arno, 1792-1865, gw. *Bywgraffiadur* 105) gan amgau copi o prospectus cyfrol George May, ' a literary Bookseller in this town', 'a man of genius and of great industry', a gofyn a fyddai modd cael enw'r frenhines ar ben rhestr y tanysgrifwyr. Gwnaeth Syr David ei waith.

Cytunodd honno, ond cafodd Timothy ei hun lawer mwy o bleser yn sylw Syr David yn ei lythyr, 'The fame of your late much respected Father is well known to me'. Ymddangosodd *A Descriptive History of the town of Evesham*, xxxiv + 407 td., yn 1845 ( a chyhoeddwyd hefyd *A Guide to the the birthtown of Shakespeare* tua 1947).

* * *

GWEDD ar gyhoeddi myfiol (os dyna yw 'vanity publishing') yw llyfrynnau Timothy Davis efallai. Yr oedd llyfrwerthwyr Llundain yn fodlon cymryd y llyfrynnau Saesneg, ond ar gyfer cylch lleol cyfyng iawn yr argraffwyd y pregethau Cymraeg. Gweinidogion y cynulleidfaoedd Undodaidd a sicrhaodd werthiant y rhain a theulu'r awdur a oedd yn gyfrifol am gasglu'r tanysgrifiadau.

Y mae'r drefniadaeth yn effeithiol a phe bai *Telyn Dewi* wedi'i gyhoeddi gellid tybio y cawsai gylchrediad da. Dywedir fod Timothy Davis â rhan yn y cyfieithiad Cymraeg o *A Commentary on the Holy Bible*, Thomas Coke (1801): gw. *Bywgraffiadur* 152, Cardiff Catalogue 1898, td. 53, *Testament Newydd ... Gyd a Sylwadau eglurhaol a defnyddiol ar bob Pennod. Wedi eu cymmerwyd allan o esponiad Thomas Coke LL.D.*, 1806-08-13.

Gw. yn fanylach a llawnach John Ballinger, *The Bible in Wales*, td. 23, ond ni welais gopi o'r gyfrol gyflawn.